

Diweddariad cynnydd blynyddol yn erbyn ymrwymïadau polisi PPC 2025/26

Mae Cyd-bwyllgor Llywodraethu (CBLI) Partneriaeth Pensiwn Cymru (PPC) wedi cymeradwyo Polisi Buddsoddi Cyfrifol (BC) PPC a'r Polisi Hinsawdd yn ffurfiol. Mae'r polisiâu hyn yn cynrychioli'r amrediad eang o gredoau buddsoddi yn y Gyd-gronfa, maent yn uchelgeisiol eu natur ac yn adlewyrchu dyhead y Bartneriaeth i fod yn arweinydd mewn Buddsoddi Cyfrifol. Yn ystod y flwyddyn, mae PPC a'r Awdurdodau Cyfansoddol (AC) wedi gweithio i weithredu a chyflawni'r ymrwymïadau polisi amrywiol.

Mae PPC wedi cynnal ei adolygiad blynyddol o gynnydd yn erbyn yr ymrwymïadau yn y BC a Pholisiâu Hinsawdd ar gyfer y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2025. Mae'r adolygiad hwn yn ffurfio elfen o brosesau llywodraethu PPC a bydd yn cael ei adlewyrchu'n ffurfiol yn adroddiad Cod Stiwardiaeth y PPC ar gyfer 2026/27. Cynhaliwyd yr adolygiad hwn gan Hymans Robertson ar ran PPC, ac mae wedi'i drafod gan Is-grŵp Buddsoddi Cyfrifol a Gweithgor Swyddogion PPC, cyn cael ei adrodd yn ffurfiol a'i drafod gan y Cyd-bwyllgor Llywodraethu.

Mae Atodiad 1 yn rhoi asesiad manwl o gynnydd y Bartneriaeth o ran cyflawni ymrwymïadau ei bolisi Buddsoddi Cyfrifol. Mae Atodiad 2 yn cwmpasu asesiad tebyg ar gyfer ymrwymïadau o dan y Polisi Hinsawdd. Ymhob maes, mae cynnydd wedi parhau yn erbyn yr ymrwymïadau polisi. Nid oes unrhyw feysydd lle nad oes unrhyw gynnydd wedi cael ei wneud dros y flwyddyn.

Uchafbwyntiau'r flwyddyn

- Dros 2025/26, gwnaeth PPC waith sylweddol o ran ei fuddsoddiadau (manyllion i'w gweld yn yr Atodiadau), yn cynnwys:
 - cwblhau strategaeth ESG bwrpasol newydd gyda'i ddarparwr goddefol, Aquila Life WPP World ESG Insights Fund, a lansiodd ar ddiwedd 2025
 - cefnogi ei ddyraniad cyfalaf-naturiol (coedwigaeth) cyntaf, yn cynnwys ased yng Nghymru
 - bwrw ymlaen â gwaith gyda Russell IM ar esblygu'r Is-gronfa Credyd Byd-eang yn gynaliadwy (yr esblygiad cyntaf o'i fath yn y swît incwm sefydlog)
- Cynhaliodd PPC adolygiad manwl o'i hagwedd tuag at waharddiadau, mewn cydweithrediad agos â'i Chronfeydd Partner a darparwyr gwasanaeth. Bydd y newidiadau yn golygu bod gwaharddiadau ar fuddsoddi mewn cwmnïau sy'n ymwneud â:
 - echdynnu/cynhyrchu pŵer o glo thermol
 - echdynnu cronfeydd olew a nwy anghonfensiynol
 - chwarae rhan mewn cynhyrchu arfau dadleuol
 - cwmnïau sy'n torri normau byd-eang yn barhaus
- Cyflwynodd PPC ei bumed Adroddiad Stiwardiaeth blynyddol, gan barhau i fod yn llofnodwr Cod Stiwardiaeth y DU 2020. Bu i PPC hefyd gwblhau ei ail Adroddiad Hinsawdd Cymru Gyfan a dechreuodd gwaith ar adroddiad natur cyntaf PPC.
- Ar stiwardiaeth, chwaraeodd PPC rôl weithredol yn nau banel cleientiaid Robeco dros y flwyddyn, gyda nifer o feysydd ymgysylltu yn cael eu trafod yn weithredol. Bydd Robeco yn lansio tair thema newydd yn 2026, gyda'r tair ohonynt (allan o bump arfaethedig) y cefnogodd PPC ar y rhestr fer ym mhanel Perchnogaeth Weithredol ym mis Tachwedd; gyda dwy yr oedd PPC wedi'u rhoi ymlaen yn weithredol ar ôl adborth gan randdeiliaid: AI Cyfrifol; Gwydnwch ffisegol (hinsawdd). Y trydydd thema i'w lansio yw Ymgysylltiad Polisi Hinsawdd Sofran yr UE.

- Am y tro cyntaf, bu i PPC gyd-ffeilio cynnig rhanddeiliaid (SHP), ar y cyd â nifer o fuddsoddwyr gyda meddylfryd tebyg dan arweiniad yr Australasian Centre for Corporate Responsibility. Cyflwynwyd yr SHP i bp ar ddechrau'r flwyddyn ac roedd yn canolbwyntio'n benodol ar gynlluniau'r prif olew i gynyddu capex i fyny'r afon, sy'n ymddangos allan o gyd-fynd â phenderfyniad 2019 ac yn cynrychioli disgyblaeth gyfalaf gwael. Roedd PPC yn teimlo bod cefnogi'r SHP yn gynydd naturiol yn dilyn cefnogaeth y Gronfa i'r llythyr buddsoddwyr cyn diwrnod marchnadoedd cyfalaf y llynedd.

Meysydd ffocws i'r dyfodol

Wrth gwblhau'r asesiad hwn, nodwn y meysydd posibl canlynol ar gyfer gweithgaredd/gwella dros 2026/27:

- 1 Hinsawdd a natur: Mae credoau ac uchelgeisiau hinsawdd PPC wedi'u nodi yn ei Bolisiâu Hinsawdd a BC, sydd wedi llywio'r swm sylweddol o waith sydd eisoes wedi'i wneud yn y maes hwn. Dylid ystyried sut y bydd uchelgeisiau o'r fath yn parhau i gael eu symud ymlaen drwy'r IMCo PPC. Er bod adroddiadau hinsawdd PPC wedi esblygu yn ystod eleni, un maes ar gyfer datblygu pellach fydd dadansoddi senario. Bydd adroddiad natur cyntaf PPC yn cael ei gyhoeddi yn 2026, a byddai'n fuddiol deall sut y gellir symleiddio adroddiadau hinsawdd a natur.
- 2 Stiwardiaeth: monitro gweithrediad y polisi gwaharddiadau a pharhau i ymgorffori'r egwyddorion uwch-gyfeirio, mewn cydweithrediad â darparwyr gwasanaeth.
- 3 Cydweithio: er bod hyn wedi digwydd yn organig dros y flwyddyn (gan gynnwys y cyd-ffeil SHP gyntaf), o ystyried yr ymrwymiad polisi, efallai y bydd PPC yn dymuno ystyried ffurfioli'r broses ar gyfer stiwardiaeth gydweithredol.
- 4 Gweithio gydag IMCo: credwn mai un o gryfderau unigryw PPC yw'r lefel o gydweithredu sy'n bodoli rhwng holl gronfeydd partner sylfaenol y Gronfa, hebdo ni fyddem wedi gweld cynnydd o'r fath yn ein taith buddsoddi cyfrifol hyd yn hyn. Gan gydnabod y newidiadau sydd ar ddod mewn trefniadau llywodraethu, bydd y cryfder hwn yn parhau wrth weithio gyda'r IMCo PPC newydd.

Paratowyd gan:

Simon Jones, Partner

Rachel Barrack, Ymgynghorydd Buddsoddi Cyfrifol Cyswllt

Ar gyfer ac ar ran Hymans Robertson LLP

Mehefin 2026

Mae Hymans Robertson LLP yn bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig sydd wedi'i chofrestru yng Nghymru a Lloegr gyda'r rhif cofrestredig OC310282. Wedi'i awdurdodi a'i reoleiddio gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol ac wedi'i drwyddedu gan y Sefydliad a Chyfadrannau'r Actiwariaid ar gyfer ystod o weithgareddau busnes buddsoddi.

© Hymans Robertson LLP 2026. Cedwir pob hawl.

Atodiad 1: Cynnydd yn erbyn ymrwymïadau polisi BC

Allwedd RAG:

Mae disgwyliadau polisi wedi'u bodloni

Mae disgwyliadau polisi wedi'u bodloni'n rhannol; amlinellir y camau i wyrdd

Nid yw disgwyliadau polisi wedi'u bodloni

Cyf.	Ymrwymiad / Datganiad Polisi	Diweddariad / Sylw	RAG
Strategaeth Fuddsoddi			
3.3	Bydd PPC yn ymgynghori gyda'r Awdurdodau Cyfansoddol o leiaf unwaith y flwyddyn i bennu eu gofynion buddsoddi unigol a dyheadau tymor hirach. Bydd PPC yn defnyddio'r wybodaeth hon i flaenoriaethu datblygu a lansio cynigion buddsoddi yn y dyfodol o fewn PPC.	Dros 2025/26, cwblhaodd PPC waith ar strategaeth ESG bwrpasol newydd gyda'i ddarparwr goddefol, a lansiwyd ddiwedd 2025. Cefnogodd PPC hefyd ei ddyraniad cyfalaf naturiol cyntaf (gweler isod) ac aeth y gwaith ymlaen gyda Russell IM ar esblygu'r Is-Gronfa Credyd Byd-eang yn gynaliadwy (yr esblygiad cyntaf o'r fath o fewn y gyfres incwm sefydlog).	●
3.4	Ar y cyd â'i ymgynghorwyr, bydd PPC hefyd yn ystyried cyfleoedd sy'n deillio o well dealltwriaeth o ffactorau ESG. Gallai'r cyfleoedd hyn gynnwys cyfleoedd lleol (Cymru), strategaethau effaith a/neu gynaliadwyedd, yn ogystal â buddsoddiadau buddiol cymdeithasol. Gall PPC gynnig cyfleoedd o'r fath yn uniongyrchol i'w hystyried gan Awdurdodau Cyfansoddol, gan gynnwys strategaethau sydd naill ai'n bodloni gofynion BC Awdurdodau Cyfansoddol neu sydd â'r potensial i ddarparu budd o fewn y rhanbarthau a gwmpesir gan yr Awdurdodau Cyfansoddol.	Cefnogodd PPC ddyraniadau gan nifer o'i gronfeydd partner i gronfa cyfalaf naturiol (coedwigaeth) a reolir gan Gresham House. Er bod mwyafrif asedau'r portffolio wedi'u lleoli yn yr Alban, mae yna asedau lleol i Gymru hefyd, gan gynnwys Brycheiniog. Yn ogystal, o fewn y rhaglen credyd preifat, a reolir gan Russell IM, gwnaeth PPC ddyraniadau penodol i Pluto Finance, gan ganolbwyntio ar dai fforddiadwy, gan gynnwys gyda phrosiectau penodol yng Nghymru.	●
Newid hinsawdd			
4.3	Bydd PPC yn ymgysylltu â'i ddarparwyr gwasanaeth i sicrhau y gellir datblygu mecanwaith cyffredin ar gyfer monitro a deall datguddiadau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd, gan gynnwys risgiau a datrysiadau, mewn perthynas â holl asedau PPC. Drwy hyn, nod PPC yw darparu cefnogaeth i Awdurdodau Cyfansoddol i ddatblygu a gweithredu eu polisïau rheoli risgiau hinsawdd eu hunain.	Mae PPC yn monitro'r risg hinsawdd drwy gymryd golwg fanwl bob chwarter ar y risg hinsawdd ac ESG yn Is-gronfeydd gweithredol PPC. Mae pob cronfa yn cael ei hystyried o leiaf bob blwyddyn. Ar hyn o bryd mae Russell hefyd yn adrodd ar risgiau hinsawdd o fewn Is-Gronfeydd a reolir gan Russell yn chwarterol ac mae wedi dechrau cynnwys ei Dangosfwrdd Sero Net fel rhan o'r adroddiadau hyn. Mae PPC hefyd yn derbyn adroddiadau ar	●

Cyf.	Ymrwymiad / Datganiad Polisi	Diweddariad / Sylw	RAG
		hinsawdd (a metrigau eraill) gan ei reolwyr marchnadoedd preifat. Cyhoeddodd PPC ei ail Adroddiad Hinsawdd Cymru gyfan yn 2025. Rhoddodd hyn ddiweddariad ar y cynnydd a wnaed ers yr adroddiad blaenorol ac ehangodd y meini prawf y mae gweithgaredd wedi'i asesu a'i adrodd yn eu herbyn.	
4.4	Bydd PPC yn annog, trwy ei ddarparwyr gwasanaeth a'i gynrychiolwyr, yr holl gwmnïau buddsoddi i ddatgelu yn unol â gofynion y Tasglu ar Ddatgeliadau Ariannol sy'n gysylltiedig â'r Hinsawdd (TCFD).	Bydd y gweithgarwch ymgysylltu yn cael ei wneud drwy Robeco a Russell. Mae PPC wedi tynnu sylw Robeco at y gofyniad hwn drwy ei themâu stiwardiaeth. Thema ymgysylltu Russell-benodol (uniongyrchol neu gyd-arwain gydag Is-Gynghorwyr): Gwydnwch Newid Hinsawdd. Ymgysylltiadau cydweithredol Russell trwy Sustainalytics: Pontio Sero-Net Mae Robeco yn ymgorffori disgwyliadau ynghylch datgeliadau TCFD o fewn sawl un o'u themâu ymgysylltu sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd, gan gynnwys: Thema Allyriadau Carbon Sero Net (thema 'bytholwyrdd', gyda chwmnïau newydd yn cael eu hymgysylltu ar sail dreigl); Trawsnewid Hinsawdd a Natur Sefydliadau Ariannol; Acceleration to Paris (thema ymgysylltu uwch); Just transition mewn Marchnadoedd Datblygol; Iechyd y Môr; Mwynau Pontio.	●
Natur			
5.2	Bydd PPC yn ymdrechu i fonitro ac adrodd ar risg natur, cyn belled ag y bo modd, a bydd yn gweithio gyda'i darparwyr gwasanaeth a'i chynrychiolwyr i sicrhau stiwardiaeth ddigonol ar y mater hwn.	Cynhaliodd PPC ei adroddiad cyntaf sy'n cwmpasu risg natur (gan gynnwys datgoedwigo) o fewn yr Is-Gronfeydd ecwiti gweithredol. Cafodd yr adroddiad ei rannu a'i drafod hefyd gyda Size of Wales a bydd nawr yn ymarferiad blynyddol.	●
Hawliau Dynol			
6.3	Bydd PPC yn ymdrechu i nodi ac ymgysylltu â sefydliadau ar faterion hawliau dynol drwy aelodaeth PPC o LAPFF a thrwy'r gweithgaredd ymgysylltu a gynhelir gan Ddarparwr PaY PPC.	Fel ei Ddarparwr Pleidleisio ac Ymgysylltu, cynhelir ymgysylltiad PPC yn bennaf trwy Robeco. Dros y flwyddyn, cymerodd Robeco ran mewn nifer o themâu sy'n canolbwyntio ar hawliau dynol: - Rheolaeth gymdeithasol gadarn - Diwydrwydd dyladwy hawliau dynol mewn ardaloedd sy'n cael eu heffeithio	●

Cyf.	Ymrwymiad / Datganiad Polisi	Diweddariad / Sylw	RAG
		gan wrthdaro a risg uchel (CAHRAs) • Trawsnewidiad cyfiawn mewn marchnadoedd datblygol • Caethwasiaeth fodern mewn cadwyni cyflenwi • Ymgysylltu â dadleuon byd-eang • Ymgysylltu â SDG I nodi, roedd y thema sy'n canolbwyntio'n benodol ar CAHRAs i fod i gau y llynedd; fodd bynnag, mae Robeco wedi dewis ymestyn, gan roi adborth cleientiaid (gan gynnwys PPC) yn y digwyddiad perchnogaeth weithredol a hefyd o ystyried y cynnydd mewn gwrthdaro byd-eang. Ar yr ochr fuddsoddi, fel rhan o'r polisi gwaharddiadau a ddatblygwyd dros y flwyddyn, bydd PPC yn eithrio cwmnïau sy'n torri normau byd-eang yn barhaus (sy'n cynnwys torri cyfraith ddyngarol ryngwladol). Bydd PPC yn gweithio gyda'i ddarparwyr i ddatblygu ei fethodoleg yn y maes hwn. Ymhellach, fel rhan o'r polisi cynyddu, rydym yn nodi y gall materion gyda chwmnïau unigol gael eu gwaethygu os oes meysydd pryder. Mae mesurau cynyddu yn cynnwys ysgrifennu at y cwmni, ymgysylltu, sancsiynau pleidleisio, cynnig penderfyniadau cyfranddalwyr. Byddai'r rhain i gyd yn cael eu hystyried cyn unrhyw benderfyniad i ddadfuddsoddi, er bod dadfuddsoddi yn opsiwn o fewn y Polisi Stiwardiaeth (ond dim ond lle mae hyn er budd ymddiriedol gorau buddsoddwyr).	
6.4	Bydd PPC yn adrodd ar sut mae gweithgarwch ymgysylltu a gynhelir gan ei ddarparwyr gwasanaeth a'i gynrychiolwyr wedi mynd i'r afael â materion hawliau dynol yn flynyddol.	Adroddir ar ymgysylltu ar hawliau dynol bob chwarter, drwy adroddiadau Robeco. Yn flynyddol, mae ymgysylltiad hawliau dynol yn cael ei adrodd drwy'r Adroddiad Cod Stiwardiaeth. Mae unrhyw ymrwymïadau hawliau dynol perthnasol hefyd yn cael eu hadrodd bob chwarter trwy'r adroddiadau chwarterol BC.	
Eithriadau			
7.3	Bydd PPC yn dirprwyo gweithredu ei bolisi eithrio i'w Reolwyr Buddsoddi a bydd yn monitro cydymffurfiaeth â'r rheolau gweithredu yn barhaus.	Dros y 12 mis diwethaf, mae PPC wedi cynnal adolygiad manwl o'i hagwedd tuag at waharddiadau, gan gydnabod nodau ei Chronfeydd Partner. Bydd y newidiadau yn	

Cyf.	Ymrwymiad / Datganiad Polisi	Diweddariad / Sylw	RAG
		golygu bod gwaharddiadau ar fuddsoddi mewn cwmnïau sy'n ymwneud â: • echdynnu/cynhyrchu pŵer o glo thermol; • echdynnu cronfeydd olew a nwy anghonfensiynol; • cynhyrchu arfau dadleuol; a • chwmnïau sy'n torri normau byd-eang yn barhaus. Mae PPC wedi gweithio gyda'i Rheolwyr Buddsoddi a darparwyr eraill i ddatblygu prosesau a rheolau mewnol i lywodraethu cwrpas a gweithrediad y polisi eithriadau hwn. Ac rydym ar hyn o bryd yn gweithio gyda Rheolwyr Buddsoddi PPC i gytuno ar ffenestr briodol (y disgwylir iddo fod tua tri mis) y dylid gweithredu'r polisi ar ôl hynny. Diweddarwyd y Polisi BC i adlewyrchu newidiadau o'r fath ym mis Mawrth 2026, ac rydym bellach yn aros am weithredu.	
7.4	Bydd PPC yn adrodd, pob chwarter, ar ei chydymffurfiaeth â'r polisi hwn i Awdurdodau Cyfansoddol.	Yn aros am weithredu.	N/A
7.5	Bydd PPC yn ymgynghori â'i Rheolwyr Buddsoddi a rhanddeiliaid eraill gyda'r bwriad o ymestyn cwrpas y polisi hwn.	Yn aros am weithredu.	N/A
Gweithredu'r strategaeth			
8.1, 8.3	Mae PPC yn disgwyl y bydd y Rheolwyr Buddsoddi a gyflogir i reoli asedau PPC yn ystyried risgiau ESG fel rhan o'u dadansoddiad buddsoddi a'u proses gwneud penderfyniadau. Mae PPC hefyd yn disgwyl i'w Rheolwyr Buddsoddi allu dangos a thystio safonau uchel mewn perthynas â'u hintegreiddio ystyriaethau BC. Lle bo angen, bydd PPC neu ei darparwyr gwasanaeth, yn ymgysylltu â Rheolwyr Buddsoddi sy'n methu â bodloni disgwyliadau PPC i gytuno ar gynllun i fynd i'r afael ag unrhyw ddiffygion. Bydd PPC yn ymgysylltu â'i Rheolwyr Buddsoddi yn barhaus i sicrhau bod ffactorau ESG yn cael eu hadlewyrchu'n	Mae Waystone / Russell, fel rhan o'u proses dethol rheolwyr eisoes yn gwerthuso sut mae rheolwyr yn integreiddio risgiau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd ac ESG eraill yn eu penderfyniadau. Mae'r RIWG yn gyfrifol am fonitro Russell a, lle bo'n briodol, y Rheolwyr Buddsoddi tanategol ar y graddau y mae ganddynt risg hinsawdd integredig ac ystyriaeth ESG ar y portffolios. Mae'r RIWG yn derbyn adroddiadau risg hinsawdd ac ESG gan eu ymgynghorwyr, sy'n monitro gweithgaredd Rheolwyr Buddsoddi PPC. Yn ogystal, o fewn y polisi cynyddu, lle mae pryderon am gyhoeddwy'r unigol, yn enwedig ynghylch torri normau byd-eang, bydd PPC yn cynyddu pryderon o'r fath i'w Rheolwyr	

Cyf.	Ymrwymiad / Datganiad Polisi	Diweddariad / Sylw	RAG
	dryloyw mewn prosesau gwneud penderfyniadau ac y gellir tystio'n briodol i'r dull a gymerir o reoli ffactorau ESG. Mae PPC yn disgwyl bod prosesau o'r fath yn ymestyn y tu hwnt i ddibyniaeth ar raddfeydd / data trydydd parti yn unig.	Buddsoddi am fewnbwn.	
8.2	Mae PPC yn disgwyl, ym mhob amgylchiad perthnasol, y bydd ei Reolwyr Buddsoddi yn llofnodwyr i'r Egwyddorion ar gyfer Buddsoddi Cyfrifol a Chod Stiwardiaeth y DU y Cyngor Adrodd Ariannol (FRC).	Mae PPC yn derbyn diweddariad blynyddol gan Russell ar gydymffurfiaeth ei reolwyr gyda safonau'r farchnad ar y cyd ag asesiad Russell ei hun o'r rheolwyr hyn. Mae manylion o'r asesiad hwn wedi'u cynnwys yn yr adroddiad Cod Stiwardiaeth.	●
Stiwardiaeth, pleidleisio ac ymgysylltu â rhanddeiliaid			
9.3	Bydd PPC yn adolygu'r polisi pleidleisio ar y cyd â'i Ddarparwr PaY, ymgynghorwyr a Rheolwyr Buddsoddi yn flynyddol.	Mae'r PPC yn dilyn Polisi Pleidleisio Dirprwy Robeco, sy'n cael ei gymhwyso ar draws holl Is-Gronfeydd Ecwiti Gweithredol PPC (a Chronfa Ecwiti Mewnwelediadau ESG y Byd Aquila Life). Adolygodd PPC bolisi pleidleisio Robeco House yn ystod y flwyddyn a phennodd bod hyn yn parhau i fod wedi'i alinio ag amcanion PPC. Mae PPC bellach wedi integreiddio set o Egwyddorion Esgoli yn ei ddull gweithredu, ar y cyd â'i reolwyr buddsoddi a'i Ddarparwr PaY.	●
9.4	Bydd PPC yn ymgysylltu â'i Reolwr Buddsoddi goddefol a'r Darparwr P&Y i ystyried sut y gellir ymestyn Polisi Pleidleisio PPC i asedau a reolir gan ei Reolwr Buddsoddi goddefol.	Lansiwyd Cronfa Ecwiti Mewnwelediadau ESG y Byd Aquila Life PPC ar ddiwedd 2025, gyda Pholisi Stiwardiaeth PPC wedi'i gymhwyso'n uniongyrchol (gan gynnwys pleidleisio).	●
9.5	Bydd PPC yn derbyn adroddiadau ar yr holl weithgaredd pleidleisio, gan gynnwys manylion unrhyw bleidleisiau nad ydynt wedi'u bwrw ac esboniadau lle nad yw pleidleisiau wedi'u bwrw, yn unol â'r egwyddorion y cytunwyd arnynt bob chwarter. Bydd PPC yn trafod unrhyw faterion sy'n achosi pryder gyda'i Ddarparwr PaY, Rheolwyr Buddsoddi neu ddirprwyon eraill, yn ôl y gofyn.	Derbynnir adroddiadau pleidleisio chwarterol gan Robeco. Cynhelir adolygiad o'r adroddiadau pleidleisio a thrafodir materion o ddiddordeb gan y RIWG. Mae PPC yn cael deialog reolaidd gyda Robeco ar faterion pleidleisio ac mae Robeco yn cyflwyno'n rheolaidd i Bwyllgorau PPC. Hefyd, mae PPC yn ymgysylltu'n weithredol â Robeco cyn unrhyw bleidlais arwyddocaol ac yn ystyried sut mae'r rhain yn cael eu gwneud yn unol ag argymhellion LAPFF. Mae Robeco yn anfon gwybodaeth am unrhyw bleidleisiau arwyddocaol, gan gynnwys y rhesymeg bleidleisio, cyn cyfarfodydd	●

Cyf.	Ymrwymiad / Datganiad Polisi	Diweddariad / Sylw	RAG
		cyffredinol.	
9.6	Mae'r holl Awdurdodau Cyfansoddol, yn ogystal â PPC ei hun, yn aelodau o Fforwm Cronfeydd Pensiwn Awdurdod Lleol (LAPFF). Fel aelodau, mae'r Awdurdodau Cyfansoddol yn derbyn rhybuddion pleidleisio LAPFF, wedi'u cyfeirio at faterion neu ddosbarthwyr penodol, yn barhaus. Mae PPC wedi cyfarwyddo ei Darparwr PaY i ystyried sylwedd y rhybudd pleidleisio cyn bwrw pleidleisiau ar ran y PPC. Tra bod y Darparwr PaY yn cadw cyfrifoldeb am y penderfyniad terfynol ar unrhyw bleidlais. Pan fo pleidlais yn anghyson â rhybudd pleidleisio LAPFF, mae'r PPC yn ei gwneud yn ofynnol i'w Darparwr PaY ddarparu esboniad o'r gwahaniaeth.	Mae PPC yn anfon pob rhybudd pleidleisio i Robeco fel ymarferiad safonol. Mae unrhyw wahaniaeth rhwng rhybuddion pleidleisio LAPFF a bwriad pleidleisio Robeco yn cael ei esbonio yn adroddiadau chwarterol BC PPC. Trafodir unrhyw wahaniaeth sylweddol yn y RIWG a gellir ei gyfeirio i'r Gweithgor Swyddogion.	●
9.7, 9.8	Bydd PPC yn derbyn adroddiad ar yr holl weithgarwch ymgysylltu a wneir gan y Darparwr PaY bob chwarter. Bydd PPC yn trafod unrhyw faterion sy'n achosi pryder gyda'r Darparwr PaY. Bydd PPC yn derbyn adroddiadau yn flynyddol ar unrhyw ymgysylltu a wnaed gan ei Rheolwyr Buddsoddi. Mae hyn yn cynnwys o fewn y rhaglenni buddsoddi yn y farchnad breifat.	Mae PPC yn derbyn adroddiad ar y gweithgarwch ymgysylltu bob chwarter. Mae PPC yn codi unrhyw faterion o bryder ar wahân gyda'r rheolwyr eraill, gan gynnwys cronfeydd goddefol, fel bo'r angen. Mae PPC yn disgwyl derbyn adroddiadau stiwardiaeth o leiaf yn flynyddol gan ei Rheolwyr Buddsoddi marchnadoedd preifat. Mae astudiaethau achos wedi'u cynnwys yn adroddiad blynyddol Cod Stiwardiaeth PPC.	●
Cydweithio			
10.1 10.3	Ar y cyd â'i Ddarparwr PaY, bydd PPC yn asesu cyfleoedd cydweithio posib yn barhaus a bydd yn hysbysu ac yn gofyn am fewnbwn gan yr Awdurdodau Cyfansoddol ar unrhyw gyfle o'r fath y mae'n tybio sy'n berthnasol. Ac y cyd â'i Ddarparwr PaY, bydd PPC yn ceisio adnabod mentrau a chydweithrediad buddsoddi cyfrifol, a arweinir gan fuddsoddwyr, y gall eu cefnogi'n frwd.	Yn gyffredinol, mae gwaith ar gyfleoedd cydweithio yn cael ei wneud drwy Robeco, Russell a LAPFF. Ar hyn o bryd nid oes mecanwaith ffurfiol ar gyfer nodi cyfleoedd cydweithredu. Yn hytrach, trafodir y rhain pan fyddant yn berthnasol yn yr RIWG. Er bod y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol yn digwydd ar ôl diwedd y flwyddyn, roedd PPC yn rhan o grŵp o fuddsoddwyr a gyd-ffeiliodd gynnig cyfranddalwyr (SHP) yn bp. Canolbwyntiodd yr SHP yn benodol ar gynlluniau bp i gynyddu capex i fyny'r afon, sy'n ymddangos allan o gyd-fynd â phenderfyniad 2019 ac sy'n cynrychioli disgyblaeth gyfalaf	●

Cyf.	Ymrwymiad / Datganiad Polisi	Diweddariad / Sylw	RAG
		gwael. Roeddem yn teimlo bod cefnogi'r SHP yn gynydd naturiol yn dilyn cefnogaeth WPP i'r llythyr buddsoddwyr cyn diwrnod marchnadoedd cyfalaf bp y llynedd; a gweithiodd PPC gyda Chanolfan Cyfrifoldeb Corfforaethol Awstralia ar y cyd-ffeil. Mae PPC hefyd wedi cymryd rhan yn y Datganiad Buddsoddwyr Cyhoeddus ar Methan i'r UE, mewn cydweithrediad â Robeco a buddsoddwyr eraill, wedi llofnodi'r Datganiad Buddsoddwyr Cyhoeddus ar Methan i Gomisiwn yr UE. Mae PPC hefyd yn cynnal deialog gyda sefydliadau trydydd sector sy'n benodol i Gymru, gan gynnwys Cyfeillion y Ddaear Cymru a Maint Cymru.	
10.4	Bydd PPC yn annog Rheolwyr Buddsoddi sylfaenol i gymryd rhan mewn neu gefnogi ymgysylltiadau cydweithredol lle ystyrir ei fod er budd ariannol cyffredinol gorau Awdurdodau Cyfansoddol.	Mae PPC wedi trafod ymgysylltiadau cydweithredol dros y flwyddyn gyda Russell IM. Ar hyn o bryd nid oes mecanwaith ffurfiol ar gyfer nodi cyfleoedd cydweithredu y dylai Rheolwyr Buddsoddi gymryd rhan ynddynt. Yn hytrach, mae'r rhain yn cael eu trafod, pan fo'n berthnasol, yn y RIWG a'r Gweithgor Swyddogion. Efallai y bydd PPC yn dymuno ystyried a oes angen proses ffurfiol.	
Benthycia gwarannau			
11.2	Er mwyn sicrhau bod ei hawliau pleidleisio'n cael eu gweithredu'n llawn, cyn belled ag y bo'n ymarferol, bydd PPC yn galw yn ôl yr holl stociau sydd ar fenthyg cyn unrhyw gyfarfod lle gellir arfer hawliau pleidleisio ar draws yr Is-gronfeydd ecwiti gweithredol o fewn cwmpas.	Mae'r gwasanaeth adalw stoc wedi bod ar waith ers diwedd 2023, sy'n golygu y bydd stoc yn cael ei alw'n ôl yn awtomatig ar yr holl Is-Gronfeydd ecwiti o fewn cwmpas - gan nodi nad yw benthycia stoc yn cael ei gymhwyso i'r Is-Gronfa Ecwiti Gweithredol Cynaliadwy (SAE) - i ganiatáu i PPC bleidleisio ei holl swyddi mewn cyfarfodydd cyffredinol.	
Monitro, adrodd a mesur			
12.1	Mewn ymgynghoriad ag Awdurdodau Cyfansoddol, darparwyr gwasanaeth a Rheolwyr Buddsoddi, mae PPC wedi datblygu metrigau monitro priodol ar gyfer buddsoddiadau presennol a bydd yn parhau i gytuno ar fetrigau priodol mewn perthynas â phob buddsoddiad newydd. Mae metrigau o'r fath yn cynnwys amlygiad sy'n gysylltiedig	Mae'r Is-grŵp BC wedi sefydlu proses ar gyfer derbyn adroddiadau 'manwl' ar yr is-gronfeydd ESG a risg hinsawdd, sy'n cael eu darparu gan ei ymgynghorwr. Mae'r adroddiadau hyn wedi'u diweddaru i gynnwys data hinsawdd cwmpas 3, yn ogystal â data mwy blaengar. Mae PPC yn derbyn adroddiadau chwarterol gan Russell yn chwarterol, sy'n cynnwys	

Cyf.	Ymrwymiad / Datganiad Polisi	Diweddariad / Sylw	RAG
	â'r hinsawdd. Bydd PPC yn ei gwneud yn ofynnol i Reolwyr Buddsoddi gynnwys metrigau o'r fath yn eu hadroddiadau chwarterol i Awdurdodau Cyfansoddol.	metrigau risg hinsawdd ac ESG, ar gyfer yr holl Is-Gronfeydd a reolir gan Russell; Mae Fidelity hefyd yn darparu monitro ESG ar gyfer yr Is-Gronfa Credyd Sterling (yr unig Is-Gronfa restredig nad yw'n cael ei rheoli gan Russell). Mae'r SAE yn ymgorffori adrodd ychwanegol, gan gynnwys ar aliniad sero net, ymgysylltiad ar allyriadau wedi'u hariannu ac ar aliniad UN SDG. Cynhyrchir adroddiad chwarterol BC (gan Is-Gronfa), sy'n hygyrch i bwyllgorau pensiwn, ac mae'n cynnwys nifer o fetrigau monitro. Mae PPC yn cynnal adroddiad hinsawdd blynyddol ac adroddiad natur.	
12.2	Bydd PPC yn cynorthwyo Awdurdodau Cyfansoddol i gasglu data a pharatoi adroddiadau yn unol â gofynion fframwaith TCFD.	Hyd yn hyn, dim ond un AC sydd wedi gofyn am ddata i gynorthwyo yn ei adroddiadau TCFD. Fodd bynnag, mae PPC yn darparu data hinsawdd yn flynyddol fel rhan o'i adroddiadau hinsawdd blynyddol ei hun.	
12.3	Mae'n ofynnol gan PPC bod cymwysterau BC pob Rheolwr Buddsoddi a benodir yn destun adolygiad blynyddol. Ar y cyd â'r partion perthnasol, bydd PPC yn datblygu fframwaith adrodd priodol ar gyfer ei Reolwyr Buddsoddi.	Mae Waystone / Russell, fel rhan o'u proses dethol rheolwr, yn gwerthuso sut mae rheolwyr yn integreiddio ystyriaethau BC yn eu proses gwneud penderfyniadau. Mae PPC yn derbyn diweddariadau rheolaidd gan ei reolwyr buddsoddi ar berfformiad a materion BC. Mae hyn yn cael ei adrodd yn yr Adroddiad Cod Stiwardiaeth. Mae'r fframwaith marchnadoedd preifat yn edrych ar gymwysterau BC y rheolwyr sylfaenol ar gyfer pob un o'r rhaglenni hynny.	
12.4	Yn flynyddol, bydd PPC yn paratoi ac yn cyhoeddi adroddiad sy'n manylu ar y camau gweithredu a gymerwyd i gyflawni'r polisi hwn a'r canlyniadau a gyflawnwyd, gan ddilyn egwyddorion Cod Stiwardiaeth FRC UK 2020.	Cwblhaodd PPC adroddiad stiwardiaeth ar gyfer y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2025, a gyflwynwyd i'r FRC ym mis Hydref 2025 a'i gyhoeddi ym mis Ionawr 2026. Mae PPC wedi cadw ei statws llofnodwr Cod Stiwardiaeth y DU.	

Cyf.	Ymrwymiad / Datganiad Polisi	Diweddariad / Sylw	RAG
Arall			
13.1	Bydd PPC yn sicrhau bod o leiaf un sesiwn hyfforddiant ffurfiol yn canolbwyntio'n uniongyrchol ar Fuddsoddi Cyfrifol.	Yn ystod 2025/26, derbyniodd PPC yr hyfforddiant BC canlynol: • Buddsoddiad lleol ac effaith mewn marchnadoedd preifat • Cod stiwardiaeth a gofynion adrodd • Bioamrywiaeth a chyfalaf naturiol • Senarios hinsawdd a dyletswydd ymddiriedolwr	
13.3	Bydd PPC yn adolygu cydymffurfiaeth pob parti â'r polisi hwn yn flynyddol. Bydd PPC yn cyhoeddi canlyniadau eu hasesiad mewn adroddiad cyhoeddus.	Mae adroddiad stiwardiaeth blynyddol PPC yn gweithredu fel adroddiad stiwardiaeth a llywodraethu BC PPC. Mae'r adroddiad hinsawdd blynyddol hefyd yn ystyried hyn o safbwynt hinsawdd yn benodol. Bydd adroddiadau blynyddol ar natur ac effaith yn cefnogi asesiad o'r fath ymhellach. Mae'r adolygiad hwn hefyd yn cwrdd â gofynion yr ymrwymiad hwn.	

Atodiad 2: Cynnydd yn erbyn ymrwymïadau Polisi Hinsawdd

Allwedd RAG:

Mae disgwyliadau polisi wedi'u bodloni

Mae disgwyliadau polisi wedi'u bodloni'n rhannol; amlinellir y camau i wyrdd

Nid yw disgwyliadau polisi wedi'u bodloni

Cyf.	Ymrwymiad / Datganiad Polisi	Diweddariad / Sylw	Statws RAG
Trosolwg			
7	Bydd y polisi hwn yn cael ei adolygu gan PPC yn flynyddol, a phetai raid, caiff newidiadau i'r polisi eu cynnig i'r CBLI a'r GS a'u cytuno ganddynt. Fel rhan o'r broses adolygu flynyddol, bydd PPC yn ystyried risg esblygol a gofynion yr Awdurdodau Cyfansoddol.	Mae aelodau RIWG, Gweithgor Swyddogion a CBLI wedi cael nifer o drafodaethau dros y flwyddyn ar sut i gyflawni amcanion hinsawdd yr AC gorau. Mae hyn yn cynnwys o ran offrymau buddsoddi, credoau ac amcanion hinsawdd, ac adrodd. Er enghraifft, a gymeradwywyd o fis Ebrill 2025, ychwanegwyd amcan hinsawdd newydd, sy'n cydnabod y rhan y mae gwytnwch natur yn ei chwarae mewn lliniaru ac addasu i'r hinsawdd. Fe wnaethom hefyd ymestyn ein hymrwymiad i nodi risgiau hinsawdd wrth ddatblygu cynhyrchion buddsoddi PPC newydd, trwy gydnabod yr angen i nodi cyfleoedd hinsawdd hefyd; gyda'r ddau lens wedyn wedi'i cymhwyso i gynhyrchion buddsoddi newydd a phresennol.	
9	Wrth gynnal a gweithredu ar y polisi hwn, bydd gan PPC ddeialog barhaus gyda'i Weithredwr, Rheolwyr Buddsoddi, Darparwr Pleidleisio ac Ymgysylltu (Darparwr PaY) a'i Ymgynghorydd Goruchwyllo, yn ogystal ag Awdurdodau Cyfansoddol PPC, y gwneir buddsoddiadau er eu budd. Bydd y PCC hefyd yn ceisio mewnbwn gan drydydd partïon lle bo'n briodol.	Cwblhawyd dau ddarn mawr o waith mewn perthynas â'r hinsawdd dros y flwyddyn: 1. Datblygu Cronfa Mewnwelediad ESG y Byd Aquila Life PPC, sydd â nodweddion hinsawdd penodol; gan gynnwys o amgylch targedau reffeniwr gwyrdd, lleihau allyriadau carbon a thargedau cynnydd tymherus; Mae eithriadau hefyd yn cael eu cymhwyso, o amgylch glo thermol ac olew a nwy anghonfensiynol.	

Cyf.	Ymrwymiad / Datganiad Polisi	Diweddariad / Sylw	Statws RAG
		2. Polisi gwaharddiadau PPC-gyfan, sy'n eithrio buddsoddiad mewn cwmnïau sy'n ymwneud â: • echdynnu/cynhyrchu pŵer o glo thermol • echdynnu cronfeydd olew a nwy anghonfensiynol Yn ogystal, gweithiodd PPC gyda'i Reolwr Buddsoddi Russell IM yn esblygiad cynaliadwy yr Is-gronfeydd incwm sefydlog (a reolir gan Russell).	
Credoau			
10.5	Mae'n ddyletswydd ar y Bartneriaeth i adnabod ffynonellau posibl o risgiau (a chyfleoedd) sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd wrth ddatblygu a buddsoddi'n barhaus mewn unrhyw ddatrysiad buddsoddi PPC, yn ogystal ag wrth gaffael unrhyw ddarparwr gwasanaeth. Bydd PPC yn ceisio sicrhau bod risgiau a chyfleoedd o'r fath yn cael eu rheoli'n briodol a'u cyfathrebu i Awdurdodau Cyfansoddol.	Fel y nodwyd yn 9 uchod, roedd hinsawdd (risg a chyfle) yn ystyriaeth allweddol yn y gwaith a wnaed o fewn yr ateb goddefol newydd, yn ogystal â'r polisi eithrio. Yn gyffredinol, wrth gaffael unrhyw ddarparwr, gan gynnwys o fewn y dosbarthiadau asedau marchnadoedd preifat, cyfathrebu dyheadau hinsawdd WPP.	
Amcanion			
13	Rôl PPC yw ymgynghori â phob Awdurdod Cyfansoddol mewn perthynas â'u hamcanion hinsawdd, o leiaf bob blwyddyn, ac i ddeall yn llawn pa atebion gweithredu sydd eu hangen arnynt i gyflawni eu hamcanion a'u hymrwymadau.	Ymgynghori â'r Awdurdodau Cyfansoddol yn rheolaidd ynghylch eu dyheadau hinsawdd. Trafodwyd cronfa goedwig Gresham House i ddechrau ymhlith Awdurdodau Cyfansoddol yn y RIWG a symudodd ymlaen o fewn y pyllgorau pensiwn unigol.	●
14	Yn dilyn ei ymgynghoriad â phob Awdurdod Cyfansoddol, bydd PPC yn ymdrechu i ddatblygu a hwyluso atebion buddsoddi sy'n galluogi pob Awdurdod Cyfansoddol i gyflawni eu hamcanion a'u hymrwymadau hinsawdd.	Fel yr adroddwyd uchod, roedd y gwaith penodol a wnaed dros y flwyddyn yn cynnwys: • Aquila Life WPP World ESG Insights Fund • Gresham House forest fund	●

Cyf.	Ymrwymiad / Datganiad Polisi	Diweddariad / Sylw	Statws RAG
15	Lle bo hynny'n bosibl, bydd PPC a'i Awdurdodau Cyfansoddol yn ceisio cydweithio i ddatblygu atebion buddsoddi sy'n bodloni amcanion ac ymrwymadau hinsawdd yr holl Awdurdodau Cyfansoddol.	- Polisi gwaharddiadau - Incwm sefydlog cynaliadwy	
16	Os na ellir datblygu atebion buddsoddi unedig a chydweithredol sy'n bodloni amcanion a gofynion yr holl Awdurdodau Cyfansoddol ar yr un pryd, bydd PPC yn gweithio gydag unrhyw Awdurdod Cyfansoddol i ddatblygu atebion buddsoddi wedi'u teilwra a fydd yn eu galluogi i gyflawni eu hamcanion a'u gofynion lleol eu hunain.		
18	Yn flynyddol, bydd PPC yn asesu a yw ei ymarfer ymgynghori â'r Awdurdodau Cyfansoddol wedi nodi amcan cyffredin sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd y mae pob Awdurdod Cyfansoddol yn fodlon ei gefnogi. Os gellir cael cefnogaeth unfrydol, gan bob un o'r wyth Awdurdod Cyfansoddol yng Nghymru, bydd PPC yn ceisio mabwysiadu'r amcan hwn sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd fel 'Nod Hinsawdd' PPC a'i ymgorffori ar draws holl fuddsoddiadau PPC, cyn belled ag y bo'n ymarferol, gan gydnabod yr anhawster posibl o wneud hynny ar y mandadau goddefol ac o fewn marchnadoedd anhylifol.	Nid yw PPC wedi cytuno ar nod hinsawdd torfol eto. Fodd bynnag, fel y gwelwyd uchod, nid yw hyn wedi lleihau'r gwaith a wneir yn gyffredinol o fewn trefniadau buddsoddi unigol, a goruchwylio ac adrodd cyffredinol. Mae pob un ohonynt yn cyd-fynd ag uchelgeisiau a chredoau'r Polisi Hinsawdd. Mae PPC yn parhau i ymgymryd â gwaith ar y trawsnewidiad hinsawdd, ac mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn ei fuddsoddiadau a'i stiwardiaeth. Fel rhan o'r trawsnewidiad i'r IMCo PPC, dylai PPC amlinellu ei greddoau a'i amcanion hinsawdd, fel bod yr amcan a rennir hwn yn parhau.	●
19	Bydd Nod Hinsawdd PPC, gan gynnwys unrhyw dargedau canolradd neu gysylltiedig, yn cael ei adolygu'n rheolaidd, ar ôl ymgynghori â'r Awdurdodau Cyfansoddol. Bydd nod o'r fath bob amser yn cael ei yrru gan ofynion ac amcanion cyfunol yr Awdurdodau Cyfansoddol. Os nad yw ymarfer ymgynghori PPC gyda'r Awdurdodau Cyfansoddol yn nodi amcan cyffredin sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd y mae pob Awdurdod Cyfansoddol yn fodlon ei gefnogi'n unfrydol, yna ni fydd unrhyw Nod		

Cyf.	Ymrwymiad / Datganiad Polisi	Diweddariad / Sylw	Statws RAG
	Hinsawdd PPC yn cael ei lunio nes bod cefnogaeth unfrydol i Nod Hinsawdd penodol.		
20	Er mwyn hwyluso trafodaeth yn y dyfodol ac adeiladu consensws ar yr hinsawdd yn gyffredinol, gan gynnwys ar Nod Hinsawdd cyffredin, mae PPC wedi datblygu Fframwaith Hinsawdd. Mae'r Fframwaith Hinsawdd yn cynnwys tacsonomeg cyffredin a sail ar gyfer gosod targedau hinsawdd. Bydd hyn yn cefnogi datblygu cynnyrch yn y dyfodol, esblygiad polisi ac adrodd i fynd i'r afael â nhw mewn modd cyson. Bydd hyn hefyd yn caniatáu i PPC asesu ei chronfeydd presennol (gweithredol a goddefol, rhestredig a phreifat) yn erbyn y Fframwaith Hinsawdd i hwyluso esblygiad lle bo hynny'n briodol.	Mae'r Fframwaith Hinsawdd wedi cael ei ddefnyddio i lywio adroddiadau chwarterol a blynyddol (gan gynnwys Adroddiad Hinsawdd Cymru gyfan ac Adroddiad Natur). Defnyddiwyd y Fframwaith hefyd fel rhan o ddatblygu'r gronfa goddefol newydd ac yn y gwaith ar eithriadau.	●
Strategaeth fuddsoddi			
22	Gan gydnabod ei threfniadau buddsoddi a'i chynigion buddsoddi cyfredol, bydd ffocws uniongyrchol PPC ar amlygiad risg sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd o fewn ei daliadau ecwiti ac incwm sefydlog. Bydd PPC yn ystyried risgiau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd mewn dosbarthiadau asedau eraill pan fydd amgylchiadau'n caniatáu neu'n gofyn iddynt wneud hynny. Bydd PPC yn ymdrechu i ddarparu atebion hinsawdd ar draws cynhyrchion buddsoddi, gan gynnwys asedau marchnad breifat a mandadau goddefol.	Mae amlygiad risg hinsawdd yn cael ei fonitro a'i ystyried ar draws holl Is-Gronfeydd PPC, gyda Russell yn olrhain risg hinsawdd ar draws yr Is-Gronfeydd y mae'n eu rheoli ar gyfer PPC. Mae'r adroddiadau risg hinsawdd ac ESG yn tynnu sylw at fetrigau hinsawdd blaengar ac yn ôl ar draws Is-Gronfeydd, gan gynnwys aliniad. Roedd adroddiad hinsawdd blynyddol y llynedd hefyd yn cynnwys tair o gronfeydd ecwiti goddefol BlackRock. Rydym yn casglu data hinsawdd ar y rhaglenni marchnadoedd preifat, lle mae hyn ar gael. I nodi, derbynnir hyn yn flynyddol ac yn gyffredinol mae'n fwy cyfyngedig nag yn y gofod rhestredig.	●
23	Mae PPC yn cydnabod pwysigrwydd monitro amlygiad i risgiau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd mewn gwahanol ffyrdd. Mae deall cysylltiad â datrysiadau hinsawdd hefyd yn fuddiol o ran deall anghenion buddsoddi i gyflawni nodau hinsawdd. Un ffordd y mae	Darperir adroddiadau risg hinsawdd ac ESG gan ymgynghorydd PPC ar gyfer holl Is-Gronfeydd PPC o leiaf bob blwyddyn. Mae PPC yn adrodd ar amlygiad hinsawdd (risg, atebion ac aliniad) ar gyfer pob un o'r Is-Gronfeydd a restrir (ac eithrio Cronfa	●

Cyf.	Ymrwymiad / Datganiad Polisi	Diweddariad / Sylw	Statws RAG
	PPC yn hwyluso hyn yw drwy fonitro cysylltiad â nifer o briodoleddau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd ar gyfer pob Is-gronfa i sicrhau bod gan yr Awdurdodau Cyfansoddol yr holl wybodaeth sydd ar gael iddynt. Mae PPC yn derbyn Adroddiadau Risg Hinsawdd ac ESG rheolaidd ar gyfer ei Is-Gronfeydd Ecwiti ac Incwm Sefydlog. Bydd PPC yn parhau i archwilio ac ymchwilio i ddatblygiadau'r farchnad sy'n gwella ei allu i asesu amlygiad hinsawdd o fewn ei gynhyrchion buddsoddi, gan gynnwys asedau marchnad breifat.	Bondiau Llywodraeth Fyd-eang) yn chwarterol. Mae Russell yn tracio'r amlygiad i risg carbon o bob Is-gronfa yn yr adroddiadau chwarterol y mae'n eu darparu i PPC. Mae adrodd ar hinsawdd hefyd yn cael ei ddarparu gan y rheolwyr marchnadoedd preifat. Mae amlygiad hinsawdd ar lefel Cymru gyfan yn adrodd drwy'r adroddiad hinsawdd blynyddol (naill ai'r Adroddiad Hinsawdd Cymru gyfan, a gwblhawyd yn 2025, neu adroddiad ar lefel y Pŵl yn unig).	
24	Bydd PPC yn ymdrechu i hwyluso dadansoddiad senario hinsawdd ar draws asedau a ddelir o fewn PPC i sicrhau bod yr Awdurdodau Cyfansoddol yn ymwybodol o'r cysylltiadau hinsawdd posibl o fewn buddsoddiadau PPC.	Mae adroddiadau PPC yn ystyried dadansoddiad hinsawdd blaengar, gan gynnwys aliniad pontio, cynnydd tymheredd ymhlwg, ac yn cynnwys aliniad NZIF; fodd bynnag, nid yw PPC wedi cynnal unrhyw ddadansoddiad senario hinsawdd eto. Dylai PPC ystyried adrodd yn y dyfodol ynghylch dadansoddi senarios hinsawdd, sy'n ymgorffori modelau ansoddol a senarios yn y byd go iawn, a phwyntiau tipio.	●
25	Mae PPC wedi ymrwymo i gynnal o leiaf un sesiwn hyfforddi flynyddol sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd i'w rhanddeiliaid. Mae PPC yn cynnal ymarfer adnabod anghenion hyfforddi blynyddol, ar y cyd â'r Awdurdodau Cyfansoddol; dyma'r mecanwaith y mae PPC yn mesur gofynion hyfforddiant sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd ei rhanddeiliaid.	Cynhaliwyd sawl sesiwn hyfforddi ar Fuddsoddi Cyfrifol yn ystod y flwyddyn. Roedd hyn yn cynnwys hyfforddiant ar senarios hinsawdd. Trafodwyd astudiaethau achos ar sut mae'r hinsawdd yn cael ei integreiddio i ddau o'r dosbarthiadau asedau marchnadoedd preifat hefyd fel rhan o hyfforddiant lleol ac effaith ehangach. Cynhelir asesiad blynyddol o anghenion hyfforddi gyda'r AC i bennu meysydd ffocws.	●

Cyf.	Ymrwymiad / Datganiad Polisi	Diweddariad / Sylw	Statws RAG
Gweithredu			
27	Mae PPC yn disgwyl i'w Rheolwyr Buddsoddi sicrhau bod yr holl reolwyr gweithredol sylfaenol yn integreiddio ystyriaeth risgiau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd yn eu proses fuddsoddi ac i herio rheolwyr sylfaenol yn rheolaidd i dystio eu dull gweithredu.	Mae PPC wedi ymgysylltu â Russell yn ystod y flwyddyn i ddeall ei ddull o reoli'r risg hinsawdd, gan gynnwys y metrigau a'r teclynnau y mae'n eu defnyddio i wneud hynny. Mae Russell wedi dyrannu cyfrifoldeb dros y trosolwg o reolwyr buddsoddi tanategol a ddefnyddir a'u dull tuag at reoli risg hinsawdd.	
28	Bydd PPC yn gweithio gyda'i Rheolwyr Buddsoddi i sicrhau eu bod yn cyfrif ac yn integreiddio risgiau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd yn eu prosesau buddsoddi.	Mae Ymgynghorydd Trosolwg PPC yn ymgysylltu gyda Russell o leiaf bob chwarter. Fel rhan o'r ddeialog yma, rydym wedi cynnal trafodaethau penodol ynghylch sut maen nhw'n ymdrin â'u dull tuag at yr hinsawdd (personél; teclynnau; data; ymchwil; modelu sero-net. Fel yr uchod, gweithiodd PPC yn uniongyrchol gyda Russell IM ar bolisi eithriadau PPC. Mae Russell wedi dirprwyo cyfrifoldeb am oruchwylio'r rheolwyr buddsoddi sylfaenol a gyflogir a'u dull o reoli risg hinsawdd.	
29	Mae strategaeth stiwardiaeth PPC wedi'i nodi yn ei Pholisïau Buddsoddi Cyfrifol a Stiwardiaeth. Bydd PPC yn pwysleisio pwysigrwydd ymgysylltu ar risgiau a chyfluoedd sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd yn bennaf trwy ei Ddarparwr PaY. Yn benodol, bydd PPC yn annog ei Ddarparwr PaY i ymgysylltu â chwmnïau buddsoddi mewn marchnadoedd rhestredig ar faterion sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd, gan gynnwys datgeliadau ar risgiau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd gan gwmnïau i fuddsoddwyr, ac ar lunio a gweithredu cynlluniau pontio sy'n cyd-fynd â nodau Cytundeb Paris.	Mae thema stiwardiaeth PPC, 'Canolbwyntio ar Sero Net' wedi'i integreiddio ar draws nifer o themâu ymgysylltu Robeco a weithredwyd dros y flwyddyn. • Allyriadau Carbon Sero Net (thema 'fytholwyrdd', gyda chwmnïau newydd yn cael eu hymgysylltu ar sail dreigl) • Trawsnewid Hinsawdd a Natur Sefydliadau Ariannol • Acceleration to Paris (thema ymgysylltu uwch) • Just Transition mewn Marchnadoedd Datblygol • Iechyd y Môr • Mwynau Trosiannol Mae Russell IM hefyd yn ymgysylltu â chwmnïau buddsoddi ar ran PPC (fel cwmni yn uniongyrchol neu mewn cydweithrediad	

Cyf.	Ymrwymiad / Datganiad Polisi	Diweddariad / Sylw	Statws RAG
		â'i Is-Gynghorwyr, neu drwy Sustainalytics): - Thema ymgysylltu Russell-benodol (uniongyrchol neu gyd-arwain gydag Is-Gynghorwyr): Gwydnwch Newid Hinsawdd. - Ymgysylltiadau cydweithredol Russell trwy Sustainalytics: Pontio Sero-Net	
Monitro ac adrodd			
31	Mae PPC yn monitro cysylltiad â risgiau a chyfleoedd sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd o fewn ei Is-gronfeydd bob chwarter. Mae'r metrigau a fonitriwyd yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, daliadau sydd ag amlygiad i gronfeydd tanwydd ffosil, allyriadau carbon a dwysedd carbon, ac amlygiad i atebion hinsawdd. Bydd PPC yn monitro newidiadau mewn arferion y farchnad i sicrhau bod PPC yn gwbl ymwybodol o arferion gorau sy'n newid. Bydd PPC yn datblygu monitro pellach o aliniad trosglwyddo asedau.	Mae'r adroddiadau risg hinsawdd ac ESG yn cynnwys ystod eang o fetrigau hinsawdd, ar draws yr Is-Gronfeydd ecwiti ac incwm sefydlog. Mae'r adroddiadau chwarterol BC hefyd yn monitro amlygiad hinsawdd ar draws Is-Gronfeydd. Mae PPC hefyd yn ymgymryd ag adroddiad hinsawdd blynyddol yn unol â'r TCFD. Adroddir ar is-set o gyhoeddwy, sy'n rhan o restr ffocws hinsawdd PPC, gan gynnwys metrigau yn ôl ac ymlaen, metrigau ar natur, ac uchafbwyntiau stiwardiaeth.	●
32	Yn ogystal â'i adroddiadau ei hun, bydd PPC yn ei gwneud yn ofynnol i'w Rheolwyr Buddsoddi ddarparu monitro ar amlygiad sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd yn eu hadroddiadau rheolaidd i PPC a'r Awdurdodau Cyfansoddol. Fel y nodwyd uchod, mae PPC yn disgwyl i'w Rheolwyr Buddsoddi ecwiti ac incwm sefydlog ddarparu'r monitro hwn yn rheolaidd. Mae PPC yn disgwyl adrodd ar yr hinsawdd o leiaf bob blwyddyn gan ei rheolwyr marchnad breifat, er ei bod yn cydnabod y cyfyngiadau data sy'n bodoli y tu allan i farchnadoedd rhestredig. Y disgwyl yw y bydd Rheolwyr Buddsoddi PPC nad ydynt yn ecwiti yn darparu unrhyw wybodaeth berthnasol cyn gynted ag y bydd datblygiadau data/marchnad yn caniatáu.	Mae Russell yn darparu adroddiad ar y risg hinsawdd yn ei adroddiadau chwarterol i PPC. Mae'r adroddiadau risg hinsawdd ac ESG a ddarperir gan ymgynghorydd PPC hefyd yn monitro risg hinsawdd (a chyfleoedd) ar draws yr Is-Gronfeydd. Mae Waystone hefyd yn darparu adroddiad TCFD blynyddol ar gyfer yr Is-Gronfeydd gweithredol o dan ACS Waystone.	●
34	Bydd PPC yn asesu ac yn adrodd ar gynnydd ar yr hinsawdd ar gyfer holl asedau	Ar hyn o bryd, nid yw'n ofynnol i PPC adrodd yn unol â'r TCFD. Fodd bynnag, mae PPC	●

Cyf.	Ymrwymiad / Datganiad Polisi	Diweddariad / Sylw	Statws RAG
	PPC yn flynyddol, gydag adroddiad ehangach 'Cymru gyfan' i'w gynnal bob tair blynedd. Cyn belled ag y bo'n ymarferol, ac fel rhan o unrhyw rwymedigaethau rheoleiddiol, dylai adroddiadau o'r fath fod yn unol â gofynion y Tasglu ar Ddatgeliadau Ariannol sy'n gysylltiedig â'r Hinsawdd (TCFD). Bydd PPC yn cefnogi'r Awdurdodau Cyfansoddol yn eu hadroddiadau hinsawdd eu hunain (gan gynnwys TCFD).	bellach yn cynhyrchu adroddiad hinsawdd blynyddol; eleni cafwyd Adroddiad Hinsawdd Cymru gyfan a gyhoeddir bob tair blynedd.	
Stiwardiaeth			
35	Mae dull WPP o stiwardiaeth yn gyffredinol (gan gynnwys stiwardiaeth hinsawdd) wedi'i amlinellu yn ei Pholisi Stiwardiaeth. Er mwyn hwyluso stiwardiaeth o amgylch yr hinsawdd yn benodol, bydd PPC yn cynnal rhestr o gwmnïau 'ffocws hinsawdd' (i ddechrau ar draws daliadau ecwiti gweithredol a goddefol) lle bydd gweithgarwch stiwardiaeth yn cael ei graffu'n benodol. Bydd rhestr o'r fath yn cynnwys y stociau hynny o fewn y sectorau yr effeithir arnynt yn sylweddol (neu'r rhai sy'n ariannu hynny) lle mae'r risg neu'r potensial mwyaf ar gyfer newid yn yr hinsawdd. Bydd hyn yn helpu PPC: i gefnogi goruchwyllo arferion pleidleisio ar y dosbarthwyr hynny; craffu ymhellach ar weithgarwch ymgysylltu a wneir gyda'r dosbarthwyr hynny; ac asesu (yn barhaus) y canlyniadau a gyflawnwyd.	Mae'r adroddiad sy'n canolbwyntio ar yr hinsawdd yn cael ei rannu gyda'r RIWG. Bydd monitro ac adrodd yn parhau i esblygu yn ôl yr angen.	